OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1990

## Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015

**Rhwymedigaeth i ficrosglodynnu cŵn**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i dystysgrif a ddyroddir o dan baragraff (2) neu (3), o 6 Ebrill 2016 ymlaen, rhaid i geidwad pob ci nad oes microsglodyn wedi ei fewnblannu ynddo erbyn y dyddiad hwnnw ac—

(a) sy'n hŷn nag 8 wythnos; a

(b) nad yw'n gi gwaith ardystiedig yn yr ystyr o "certified working dog" at ddibenion adran 6(3) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006(**1**),

sicrhau y caiff ei ficrosglodynnu.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys am gyhyd ag y bo milfeddyg yn ardystio, ar ffurflen a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru, y byddai microsglodynnu yn peryglu iechyd y ci yn sylweddol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), o 6 Ebrill 2016 ymlaen, rhaid i geidwad sy'n mewnforio ci sicrhau y caiff y ci ei ficrosglodynnu o fewn 30 diwrnod ar ôl mewnforio'r ci oni fydd milfeddyg yn ardystio, ar ffurflen a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru, y byddai microsglodynnu yn peryglu iechyd y ci yn sylweddol.

(4) Rhaid i dystysgrif a ddyroddir o dan baragraff (2) neu (3) ddatgan am ba gyfnod na fydd y ci yn ffit i'w ficrosglodynnu.

(5) Mae ci wedi ei ficrosglodynnu pan fo—

(a) microsglodyn sy'n cydymffurfio â rheoliad 4 wedi ei fewnblannu yn y ci; a

(b) y manylion a bennir yn rheoliad 5 wedi eu cofnodi mewn cronfa ddata gan weithredwr cronfa ddata sy'n bodloni'r amodau a bennir yn rheoliad 6.

(**1**) 2006 p. 45.